Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# Ymateb i'r cynnig ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 15 Medi 2016.

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# Ymateb i'r cynnig ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru

**Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a manylion cyswllt | 6 |
| Cefndir | 7 |
| Crynodeb o’r ymatebion | 8 |
| Penderfyniad | 9 |
| Ymatebion i gwestiynau penodol | 10 |
| Casgliad | 15 |
| Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr | 16 |

## Cyflwyniad a manylion cyswllt

Dyma'r ymateb ar ôl ymgynghori i'r *'Ymgynghoriad ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru.'*

Bydd yn ymdrin â:

- chefndir yr ymgynghoriad
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- ymateb i'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Mae copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori i'w cael drwy gysylltu ag **Ymgynghoriad GLlTEM Cymru** yn y cyfeiriad isod:

Ymgynghoriad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru
Uned Gefnogi Cymru
2il Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro
Plas Fitzalan
Caerdydd
CF24 0RZ
Ffôn: 029 2046 7759

E-bost: HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk

Gellir gwneud cais i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall drwy gysylltu â'r uned a nodir uchod.

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynglŷn â'r broses ymgynghori, dylech gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y cyfeiriad uchod.

## Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori '*Ymgynghoriad ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru*' ar 28 Mehefin 2016. Roedd yn gwahodd sylwadau gan unrhyw un â diddordeb mewn cyfiawnder lleol ac yn nodi'r tri rheswm pennaf dros ystyried uno rhai o'r 14 Ardal Cyfiawnder Lleol (ACLl) yng Nghymru.

- Darparu cyfiawnder yn fwy effeithlon drwy wella hyblygrwydd wrth ddelio ag achosion;
- Gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sy'n lleihau; ac
- Mewn rhai achosion, cynyddu'r cyfleoedd i ynadon ddal gafael ar brofiad a'u cymhwysedd.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 5 Awst 2016. Cyfarfu'r ddau Grŵp Busnes Barnwrol sy'n gyfrifol am waith Dyfed Powys a Gogledd Cymru, a Gwent a De Cymru yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 12 Awst 2016. Mae'r Grwpiau Busnes Barnwrol yn gyfrifol am sicrhau, ar lefel y glerciaeth, bod trefniadau priodol mewn lle i gynnal busnes barnwrol yn yr ardal. Caniatawyd y Grwpiau Busnes Barnwrol gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru i ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, ac i lunio ymateb ei hun i'r Ymgynghoriad.

## Crynodeb o’r ymatebion

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig chwe opsiwn, gydag opsiwn pellach i ymatebwyr awgrymu unrhyw ddatrysiad arall:

**Opsiwn 1** - Gwneud dim.

**Opsiwn 2** - uno’r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol fel a ganlyn:
Uno Conwy a Sir Ddinbych i greu Ardal Cyfiawnder Lleol (ACLl) Canol Gogledd Cymru;
Uno Castellnewydd ac Ogwr a Chaerdydd a'r Fro i greu ACLl Caerdydd;
Uno Gwynedd ac Ynys Môn i greu ACLl Gogledd Orllewin Cymru; ac
Uno Brycheiniog a Sir Faesyfed a Chymoedd Morgannwg i greu ACLl Canolbarth Cymru.

**Opsiwn 3**: Uno’r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol fel a ganlyn:
Uno Conwy, Sir Ddinbych, Sir Drefaldwyn, Gwynedd, Gogledd Ddwyrain Cymru ac Ynys Môn i greu ACLl Gogledd Cymru;
Uno Ceredigion a Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Gorllewin Morgannwg i greu ACLl Canolbarth a Gorllewin Cymru; ac
Uno Caerdydd a'r Fro, Cymoedd Morgannwg, Brycheiniog a Sir Faesyfed a Gwent i greu ACLl De Ddwyrain Cymru.

**Opsiwn 4**: Uno’r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol fel a ganlyn:
Uno Conwy, Sir Ddinbych, Sir Drefaldwyn, Gwynedd, Gogledd Ddwyrain Cymru ac Ynys Môn i greu ACLl Gogledd Cymru.
Uno Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Brycheiniog a Sir Faesyfed i greu ACLl Dyfed Powys; ac
Uno Caerdydd a'r Fro, Cymoedd Morgannwg a Chastellnewydd ac Ogwr i greu ACLl De Cymru.

**Opsiwn 5**: Uno’r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol fel a ganlyn:
Uno Conwy, Sir Ddinbych, Sir Drefaldwyn, Gwynedd, Gogledd Ddwyrain Cymru ac Ynys Môn i greu Ardal Cyfiawnder Lleol Gogledd Cymru.
Uno Caerdydd a’r Fro, Cymoedd Morgannwg, Gwent, Castellnewydd ac Ogwr, Brycheiniog a Sir Faesyfed, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Gorllewin Morgannwg i ffurfio ACLl De Cymru.

**Opsiwn 6** - uno’r holl Ardaloedd Cyfiawnder Lleol presennol i ffurfio un ACLl ar gyfer Cymru gyfan.

Cafwyd cyfanswm o 42 ymateb i’r papur ymgynghori. Cafodd pob ymateb ei archwilio o ran lefel y gefnogaeth yn erbyn pob un o'r chwe opsiwn a nodwyd unrhyw opsiynau amgen nad oeddent wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

O’r holl ymatebion, roedd 23 ymateb yn cefnogi Opsiwn 2; saith yn cefnogi Opsiwn 4; cefnogwyd Opsiynau 1, 3 a 5 gan un atebydd yr un; awgrymodd pum ymatebydd gyfuniad o'r opsiynau ac roedd pedwar ymatebydd yn niwtral.

## Penderfyniad

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 2. Mae'r ddau Grŵp Busnes Barnwrol wedi ystyried mai hwn yw'r cam lleiaf sydd ei angen i weithredu'r penderfyniad a wnaethpwyd eisoes i gau adeiladau llys penodol, ac mae'n adlewyrchu'r newidiadau a gytunwyd arnynt eisoes mewn perthynas â'r trefniadau rhestru a weithredwyd neu sydd i'w gweithredu wrth i'r llysoedd gau. O ganlyniad i hyn, y penderfyniad yw Opsiwn 2, a bydd gwaith yn cychwyn nawr i wneud trefniadau pontio priodol. Pe byddai unrhyw opsiwn arall yn cael ei ystyried mewn perthynas ag ardaloedd cyfiawnder lleol, byddai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eisiau rhagor o amser i ymgysylltu ag Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol sy'n bartneriaid ynglŷn â beth fyddai'r ffordd orau i gyflawni gwaith o'r safon uchaf ar draws ardaloedd cyfiawnder. Mae gweithio ar draws ffiniau ACLl Dyfed Powys ac ACLl De Cymru yn ddymunol a hefyd yn ganlyniad anochel yn dilyn y penderfyniad i gau Llys Ynadon Aberhonddu.

## Ymatebion i gwestiynau penodol

**Opsiwn 1**
Dywedodd rhai o'r ymatebwyr *bod yn rhaid derbyn y bydd uno meinciau llai yn gwella effeithlonrwydd ac yn gwneud gwell defnydd o adnoddau, ond bod hyn wedi cael ei benderfynu eisoes gyda'r meinciau sy'n uno ar hyn o bryd, ac oherwydd hyn ni ddylai bod Opsiwn 1 wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad yn y lle cyntaf.*

**Opsiwn 2**
Opsiwn 2 oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd, gydag ymatebwyr yn egluro *y byddai hyn yn caniatáu dyrannu gwaith yn decach ac yn galluogi ynadon i ddal gafael ar eu cymwyseddau. Er efallai bydd yn rhaid i rai defnyddwyr llys a rhai ynadon deithio'n bellach, ni fyddai'n rhaid iddynt deithio mor bell o'i gymharu â'r opsiynau eraill. Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud y defnydd gorau o staff y llys gan gynnwys y rheolwyr sy'n gyfrifol am restru a rota'r ynadon.*

**Opsiwn 3**
Cefnogwyd Opsiwn 3 oherwydd *o ganlyniad byddai'n creu tair ACLl wedi'u rhannu'n eithaf synhwyrol o ran daearyddiaeth.*

**Opsiwn 4**
Roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 4 oherwydd y byddai'n adlewyrchu Ardal Cyfiawnder Lleol Dyfed Powys. *Byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith cadarnhaol ar Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys: byddai'r holl lysoedd yn dod dan un ardal, gan ei gwneud yn haws i reoli trefniadau cyfarfod a thrafod/trosglwyddo materion. Byddai'r trefniant hwn yn adlewyrchu strwythur partneriaeth CIB Dyfed Powys ac yn cefnogi ein trefniadau gweithredu sydd wedi hen sefydlu gyda'n partneriaid.*

**Opsiwn 5**
Dywedodd un ymatebydd mewn perthynas ag Opsiwn 5: *Byddai'n well gen i fynd am yr opsiwn sy'n cynnig dwy fainc, mae gwahaniaethau rhwng Gogledd a De Cymru, megis cysylltiadau cludiant, ac ati.*

**Opsiwn 6**
Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 6, sef creu un Ardal Cyfiawnder Lleol ar gyfer Cymru gyfan.

**Opsiynau eraill:**
Gwahoddwyd yr ymatebwyr i awgrymu unrhyw ddatrysiadau eraill, ynghyd â rhesymau i gefnogi eu syniadau.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddant yn ffafrio ac yn argymell creu tair Ardal Cyfiawnder Lleol yng Ngogledd Cymru: *1 Gwynedd/Ynys Môn. 2. Conwy/Sir Ddinbych. 3. Gogledd Ddwyrain Cymru/Sir Drefaldwyn. Byddai gwybodaeth leol ynadon am y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, sydd eisoes wedi cael ei thanseilio o ganlyniad i gau llysoedd yn ddiweddar, yn cael ei thanseilio ymhellach petai'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn dod yn fwy byth. Yn ogystal, mae'n bwysig ystyried y pellteroedd mae'n rhaid i bobl deithio mewn ardaloedd gwledig fel hyn. Byddai Ardaloedd Cyfiawnder Lleol mwy yn golygu teithio'n bellach ar gyfer cyfarfodydd y Fainc a chyfarfodydd eraill ac ar gyfer hyfforddiant, ac mae'n siŵr ar gyfer eisteddiadau llys, a byddai hyn yn cael effaith ddifrifol ar bresenoldeb, cyfranogiad ac ar recriwtio hefyd mae'n debyg.*

## Sylwadau eraill:

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at gamgymeriadau yn y ddogfen ymgynghori. *Mae'r tabl sy'n amlinellu nifer yr ynadon a neilltuwyd i'r meinciau gwahanol ar dudalennau 7 ac 8 yn anghywir. Crëwyd ACLl Gorllewin Morgannwg ar 1 Ionawr 2015 ac nid yw Gorllewin Morgannwg erioed wedi bod â 172 o ynadon.*

Roedd niferoedd yr ynadon a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori yn anghywir. Cwestiynwyd hyn gan Ynadon Gorllewin Morgannwg yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chanfuwyd bod y camgymeriad wedi digwydd o ganlyniad i drosglwyddo'r data ynadon i'r gronfa ddata adnoddau dynol newydd.

Mae'n ymddangos bod y cynigion arfaethedig ar gyfer uno yn gwneud synnwyr da o ran logisteg ac mae Opsiwn [2], trwy beidio â sôn amdano, yn cynnig na ddylid uno Gwent gydag unrhyw ACLl arall.

Nid oedd bob un o'r Meinciau/ACLl wedi'u rhestru'n unigol ym mhob opsiwn oherwydd na fyddai pob un ACLl yn cael eu heffeithio o ganlyniad i gau llysoedd, ac felly cawsant eu hepgor o'r ddogfen ymgynghori yn unol â hynny.

*Dylai'r ymgynghoriad gael ei dynnu'n ôl ar unwaith oherwydd bod y cyfnod i'w ystyried ac ymateb yn llawer rhy fyr. Roedd yr ymgynghoriad i fod i gychwyn ar 28 Mehefin, ond ni anfonwyd y ddogfen at yr ynadon tan 29 Mehefin (collwyd un diwrnod cyfan). Yn ogystal, roedd y cyfnod ymgynghori yn cynnwys adeg y gwyliau pan mae'r ynadon i ffwrdd am gyfnod o bythefnos, gan gwtogi ar yr amserlen ymhellach.*

Gyda'r sylwadau amrywiol a wnaethpwyd a chafwyd, mae'n glir nad oedd yr ymatebwyr wedi cael eu heffeithio gan yr oedi o un ddiwrnod a adroddwyd amdano, a bod yr amser a roddwyd yn ddigonol ar gyfer y pwrpas.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at ymddiswyddiadau ynadon. *Mae'r fainc hon eisoes wedi gweld cydweithwyr yn ein gadael am resymau fel hyn. Rhaid cydnabod yr effaith bellach ar forâl a p'un a oes gan yr ymgyngoreion unrhyw ffydd mewn ymgynghoriadau fel hyn. Mae barn helaeth y cafodd eu sylwadau a'u cynrychiolaethau ar yr ymgynghoriad ar gau'r llysoedd eu hanwybyddu, a ni chafwyd ymateb hyd yn oed.*

Mae barn ymgyngoreion o hyd yn bwysig, ac aeth yr Ymateb i'r ymgynghoriad ar ddyfodol ystâd y llysoedd a thribiwnlysoedd y dyfodol i'r afael â'r materion allweddol a godwyd. Parchir a gwerthfawrogir gwaith yr ynadon. Y nod yw cadw'r gwasanaethau gwerthfawr hynny. Tra bod rhai o'r ynadon wedi penderfynu ymddiswyddo o'r ynadaeth, y nod yw cynnal ymrwymiad ynadon. Wrth gwrs, mae'r ffocws ar gyflwyno cyfiawnder, er mwyn sicrhau darparu'r gwasanaeth gorau posib i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion o fewn yr ystâd a gedwir. Mae'r rhan y mae'r ynadon yn ei chwarae wrth ddarparu cyfiawnder wedi newid rhywfaint dros y blynyddoedd, ond nid llawer o ran yr ymarfer a'r drefn a ddefnyddir o fewn y broses llys. Fel yr uno blaenorol, mae profiad cyffredinol ynadon o gau llys a throsglwyddo i lys a gedwir yn un cadarnhaol iawn, ac mae dwy fainc yn gweithredu fel un yn dod yn norm sefydledig a derbyniol yn sydyn iawn.

*Mae'r Ynadon wedi gorfod delio â llawer iawn o newid yn 2016:- eJudiciary, y Rota Digidol, Datrysiadau'r Fainc. Ni chafwyd llawer o hyfforddiant ac mae morâl yn isel ar hyn o bryd. Mae pryderon yn cael eu codi o ran beth fydd yn dod nesaf.*

Nid oes gostyngiad sylweddol mewn hyfforddiant ynadon wedi bod yn ddiweddar. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio trwy Raglen Ddiwygio sylweddol, gan ddod ag arbedion effeithlonrwydd i'r llysoedd. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, pan fo'n bosibl, yn rhoi gwybod i ynadon am unrhyw newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

*Ni ddylai GLlTEM fod yn gwneud penderfyniad. Dylai hwn fod yn fater ar gyfer Gweinidog yn y Llywodraeth. Nid llywodraethu'r ynadaeth yw rôl GLlTEM. Dylai fod yn mynegi barn yn hytrach na gwneud penderfyniad, felly'r cwestiwn hwn* [4 yn y ddogfen ymgynghori: A ddylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ystyried unrhyw effeithiau penodol eraill y cynigion wrth ddod i benderfyniad?]

Yn dilyn ymgynghoriad statudol, yr Arglwydd Ganghellor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i newid ACLl. Gofynnir y cwestiwn i lywio'r argymhelliad a fydd yn cael ei anfon ymlaen i'r Gweinidog gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, sydd â chyfrifoldeb am weinyddu'r ACLl ac sydd â dyletswydd i ystyried effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darparu gwasanaeth cyfiawnder, wedi ymgysylltu â Grwpiau Busnes Barnwrol yng Nghymru a grwpiau eraill, cyn argymell y dylid gweithredu Dewis 2.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at yr Asesiad Effaith. *Nid oedd yr asesiad effaith byr yn addas i'r pwrpas oherwydd nid oedd yn mynd i'r afael â'r prif faterion.* Roedd yn canolbwyntio ar faterion iechyd a diogelwch yng nghyswllt gweithwyr yn hytrach nag effaith y cynigion ar yr ynadaeth ac aelodau o'r cyhoedd.

Er bod yr asesiad effaith yn ceisio mynd i'r afael â ffeithiau a oedd yn hysbys pan ddechreuodd yr ymgynghoriad, rhan o bwrpas yr ymgynghoriad oedd adnabod unrhyw effeithiau a gafodd eu hepgor y byddai'n rhaid eu hystyried a mynd i'r afael â hwy cyn argymell a gweithredu unrhyw benderfyniad.

*Bydd cynnydd mewn maint Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn cael effaith anferthol ar y pellteroedd y bydd angen i'r Ynadon a defnyddwyr y llys deithio a thra bod canolfannau poblogaeth yn dylanwadu ar y grwpiau, nid yw natur wledig sawl rhan o Ganolbarth a Gorllewin Cymru a'r diffyg opsiynau o ran cludiant cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn yn cael ystyriaeth briodol. [Tra bod yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn strwythur gweinyddol, siŵr o fod gallai unrhyw newidiadau iddynt effeithio ar adnoddau'r heddlu, staffio GLlTEM, darpariaeth ar gyfer gwasanaethau tu allan i oriau gwaith, a phellteroedd teithio i ddefnyddwyr].*

Ni fydd cynnydd mewn maint ardaloedd cyfiawnder lleol yn brif ffactor i unrhyw un deithio rhagor. Yn gyffredinol, dylai bod ynadon yn gallu mynychu eu llys ynadon agosaf, er mwyn cyflawni ei rôl farnwrol werthfawr. Cydnabyddir bod eithriadau i hyn ar hyn o bryd, ond nid yw'n golygu na ellir meinciau a Grwpiau Busnes Barnwrol, mewn rhai achosion, weithio i ystyried a oes angen lleihau'r pellteroedd y mae'n rhaid i'r rhai hynny sydd angen dod i'r llys deithio, trwy drefnu iddynt ddod i'r llys mwyaf lleol.

*Ar yr ochr bositif, bydd gennym fainc fwy a llawer o ddarpariaeth...rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r Fainc N.   Mae'n gyfnod cyffrous a dwi'n edrych ymlaen.*

Mae'n bwysig bod yr ynadon yn datblygu eu rôl ac yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, eu bod yn eistedd ar yr ystod fwyaf eang a gwahanol fathau o achosion.

*Rhaid derbyn y byddai uno meinciau llai yn gwella effeithlonrwydd ac yn gwneud gwell defnydd o adnoddau... Fodd bynnag, yn amlwg y bydd yn arwain at greu Ardaloedd Cyfiawnder Lleol mawr a fydd yn cael effaith andwyol ar y berthynas rhwng y cadeiryddion a'u meinciau.   Mae rôl fugeiliol cadeirydd yn bwysig iawn ac mae'n aneglur sut bydd y rheoli bugeiliol yn cael ei gyflawni ar gyfer ACLl mwy.   Rhaid hefyd derbyn y byddai meinciau sydd â niferoedd llai yn cael eu 'Llyncu' gan y meinciau mwy, ac o ganlyniad bydd y Cadeirydd Mainc newydd yn anochel yn dod o un o'r meinciau cyfredol mwy, oherwydd y byddai'r cadeiryddion arfaethedig hynny sy'n rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer eu hethol yn amlwg yn gyfarwydd i lawer mwy o ynadon na'u cydweithwyr o'r meinciau llai.*
Gwerthfawrogir yn llawn y rôl arweiniol werthfawr a phwysig y mae cadeiryddion mainc yn ei chyflawni.  Galluogir i Gadeiryddion Mainc ddefnyddio cymorth dirprwy neu ddirprwyon i'w cynorthwyo gyda darparu cefnogaeth fugeiliol i gydweithwyr; a bydd rheolwyr cyfreithiol hefyd yn gallu bod o gymorth mewn perthynas â hyn.

*Bydd uno yn effeithio ar recriwtio ynadon lleyg.*

Ni ragwelir y bydd uno meinciau neu ardaloedd cyfiawnder lleol yn cael effaith uniongyrchol ar unrhyw raglen recriwtio ynadon.   Bydd Pwyllgorau Ymgynghorol yn parhau yn eu rôl yn recriwtio ynadon fel y maent yn gwneud yn bresennol.   Disgwylir y byddai darpar ynadon yn canolbwyntio mwy ar ba lys y byddent yn eistedd ynddo o fewn yr ystâd a gedwir, ac os cânt eu penodi, byddant yn poeni'n llai am strwythur cyfundrefnol y fainc gefnogol oherwydd mae'n bosib ni fyddant yn gwybod llawer amdano cyn gwneud cais i ddod yn ynad.

*Ni ellir arosod y cynigion hyn ar y model presennol, mae angen dull newydd radicalaidd i wasanaethu ardaloedd amrywiol Cymru; bydd angen mynd i'r afael â lleoliadau llysoedd, ac amlder eisteddiadau, gan optimeiddio adnoddau staff a thechnoleg er mwyn galluogi cyfiawnder i gadw cymeriad lleol, dylid ystyried cyswllt fideo, ac ati.   Rwy'n barod i dderbyn datrysiad radicalaidd, os bydd yn rhaid teithio'n bellach, dyna fo.*

Ar hyn o bryd, ystyrir ei fod yn iawn i weithredu Opsiwn 2, sy'n galluogi uno ardaloedd cyfiawnder lleol ble fo llys yn cau, gan gyfuno dwy fainc/ACLl sy'n rhannu'r un adeilad(au) llys.

*Ymhellach i'r mater cludiant a'r posibilrwydd o unrhyw un o opsiynau'r ymgynghoriad, rwyf wedi mynegi pryder ynglŷn â'r effaith ar ddarpariaeth ddwyieithog ar draws Cymru.   Dylai gwasanaeth dwyieithog fod yn ganolog i'r system gyfiawnder yng Nghymru, ac nid yw'n dderbyniol i'w beryglu.*

Nod ac effaith gweithredu ar uno ardaloedd cyfiawnder lleol yw, sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod ynadon a chynghorwyr cyfreithiol sy'n siarad Cymraeg yn cael eu darparu, pan fo'r angen, a bod yr adnodd yn weladwy ac yn hygyrch.

*Mae Adrannau 10 a 30 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol hefyd yn darparu ar gyfer rhestru gwaith mewn llysoedd nad ydynt o fewn yr Ardal Cyfiawnder Troseddol lle cyflawnwyd y troseddau.   Gellir*

*trosglwyddo gwaith a restrwyd mewn llys sy'n cau yn N i N heb fod angen uno'r meinciau i greu Ardal Cyfiawnder Lleol mwy.*
Cytunir ar y pwynt hwn.   Mae cyfarwyddyd a wneir dan Adran 10 a 30 o Ddeddf Llysoedd 2003 yn hyblyg iawn o ran lleoli'r ynadaeth a ddyrannwyd i un ardal cyfiawnder lleol mewn ardal arall, ac o ran trosglwyddo gwaith o un ardal cyfiawnder lleol i un arall.   Pwrpas yr ymgynghoriad a'r penderfyniad a wnaed o ganlyniad hynny yw symud ymlaen gyda diffiniad gwell o beth fydd y strwythur barnwrol yng nghyswllt unrhyw lys.

*Mae'n ymddangos bod natur amrywiol yr holl Feinciau yn cael ei anwybyddu mewn unrhyw ymgynghoriad.*

Rhaid i'r meinciau gynnwys ynadon sy'n cynrychioli'r amrywiaeth yn ein cymunedau, sy'n fater i Bwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ei ystyried a mynd i'r afael ag ef yn barhaus. Ar wahân i uno unrhyw ardaloedd cyfiawnder lleol, efallai y disgwylir, yn y rhan fwyaf o achosion, y bydd ynadon yn eistedd yn y llys sydd agosaf at eu hardaloedd lleol. Tra bydd uno meinciau yn arwain at newidiadau, ni fydd y ffordd y darperir cyfiawnder yn newid.

Wrth ystyried unrhyw uno, a ellir ystyried amserlen gydag achosion o'r un ardal awdurdod lleol i alluogi'r rhestr i fod yn seiliedig ar yr awdurdod lleol er mwyn rhyddhau adnoddau YOP mewn modd effeithlon.

Bydd rhestru yn cael ei ystyried yn barhaus gan y Grwpiau Busnes Barnwrol priodol, a bydd rhanddeiliaid  o hyd yn cael y cyfle i fynegi eu barn neu wneud sylwadau trwy fynychu grwpiau defnyddwyr y llys.

## Casgliad

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi dadansoddi’r ymatebion mewn perthynas ag uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru, gan gynnwys yr ymatebion gan y Grwpiau Busnes Barnwrol, ac mae wedi cydnabod y gefnogaeth am Opsiwn 2, sef uno’r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol fel a ganlyn.

- Conwy a Sir Ddinbych i greu ACLl Canol Gogledd Cymru;
- Castellnewydd ac Ogwr a Chaerdydd a'r Fro i ffurfio ACLl Caerdydd;
- Gwynedd ac Ynys Môn i ffurfio ACLl Gogledd Orllewin Cymru; a
- Brycheiniog a Sir Faesyfed a Chymoedd Morgannwg i ffurfio un ACLl Canolbarth Cymru.

Bydd cyflwyniad ffurfiol ynghyd â’r Offeryn Statudol (OS) yn cael ei gyflwyno i’r Uwch Farnwr Llywyddol. Gyda’i gytundeb ef a chydsyniad yr Arglwydd Ganghellor, bydd yr OS yn cael ei gyflwyno erbyn 19 Medi 2016, a'i weithredu o 11 Hydref 2016.

Disgwylir y bydd etholiadau cysgodol rhwng mis Medi a mis Rhagfyr yn cynnwys; gyda sefydlu dyddiaduron a phaneli ar gyfer 2017 yn cychwyn ym mis Rhagfyr.

Bydd yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2017.

## Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr

Karen Andrew, Ynad Heddwch, Gorllewin Morgannwg;

Cymdeithas Barnwyr Cymru;

Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Blaenau Gwent a Chaerffili;

Mainc Brycheiniog a Sir Faesyfed;

Mainc Caerdydd a Bro Morgannwg;

Mainc Sir Gaerfyrddin;

Elizabeth Collison, YH, Ceredigion;

Hefin David, AC, Caerffili;

Wayne David, AS, Caerffili;

Mainc Sir Ddinbych;

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys;

Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) Dyfed Powys a Gogledd Cymru;

Heddlu Dyfed Powys;

Sherene Edwards, YH, Gwent;

Alwyn Lloyd Ellis, YH a Chadeirydd Mainc, Gwynedd;

Derek Evans, YH, Gorllewin Morgannwg;

Mainc Cymoedd Morgannwg;

Katrina Guntrip, YH, Gorllewin Morgannwg;

Cymdeithas yr Ynadon - Cangen Gwent;

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu – Gwent;

Grŵp Busnes Barnwrol Gwent a De Cymru;

Dr Catrin Fflur Huws, Canolfan Materion Cyfreithiol Cymru, Prifysgol Aberystwyth;

Dafydd Llewelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys;

Philip Llewellyn, YH a Chadeirydd Mainc, Gorllewin Morgannwg; (Ymateb Gorllewin Morgannwg yn hwyrach?)

Ian Lucas, AS, Wrecsam;

Cymdeithas yr Ynadon;

Richard McKee, YH, Sir Ddinbych;

Mainc Castellnewydd ac Ogwr;

Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin;

Howard Parish, YH, Castellnewydd ac Ogwr;

Huw Rees, YH, Gorllewin Morgannwg;

Maureen Rees, YH, Gorllewin Morgannwg;

Stephen Rogers, YH, Gorllewin Morgannwg;

Cadeiryddion Mainc De Cymru a Gwent;

David Subacchi, YH, Sir Ddinbych;

George Swan, YH a Chadeirydd Cymdeithas Ynadon Gorllewin Morgannwg;

Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Bro Morgannwg;

Jayne Walker, YH, Gorllewin Morgannwg;

Llywodraeth Cymru;

Mainc Gorllewin Morgannwg;

Alan Williams, YH, Sir Ddinbych; a

Mark Williams, AS, Ceredigion.

© Hawlfraint y Goron 2013
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill hefyd drwy ffonio 029 2046 7759 neu anfon e-bost i: HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk